



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
(Cymru) 2016**

**Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr
Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2018

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar set o reoliadau diwygio – Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 sy'n diwygio'r prif reoliadau - Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Datblygwyd y rheoliadau newydd dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac, os cymeradwyir hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, byddant yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd, erbyn canol nos ar y dyddiad cau, ffurflen ymateb yr ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb at:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (<<http://wales.gov.uk/consultations/?lang=en>>) a gellir ei hanfon atom, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost at:

[<RISCAct2016@llyw.cymru >](mailto:<RISCAct2016@llyw.cymru>)

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – mae'r rhain yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol o ran cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i oedolion a gwasanaethau cymorth cartref
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

Canllawiau Statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar gwrdd â rheoliadau safonau gwasanaeth (Chwefror 2018) – mae'r rhain yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol o ran cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i oedolion a gwasanaethau cymorth cartref
<https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidanceen.pdf>

Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad: Cam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171122responses-serviceen.pdf>

**Manylion
cyswllt****I gael rhagor o wybodaeth:**

Cyfeiriad: Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac
Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: RISCAct2016@llyw.cymru

rhif ffôn: 0300 0604400

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych chi'n ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau doeth ynghylch sut y maent yn ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn, neu'n cynllunio ymgynghoriadau i'r dyfodol. Lle bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gallai'r gwaith hwn gael ei gomisiynu i'w gyflawni gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud ond dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'i gadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn briodol, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Yna byddwn yn eu tynnu ymaith cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am gyfnod o dair blynedd neu lai.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a chael mynediad ato
- mynnu ein bod yn cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (o dan rai amgylchiadau)
- 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau)
- symud eich data (o dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, gweler y manylion cysylltu isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost:
DataProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Caer
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagair

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r papur gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith ar gyfer Gweithredu*. Roedd hwn yn cyflwyno cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig a pherson-ganolog newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. I weithredu'r dull newydd hwn, yn nhymor diwethaf y Cynulliad lluniwyd dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Drwy weithredu Deddf 2016 rydym yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac arolygu darparwyr gwasanaeth sy'n cynnal hawliau dinasyddion Cymru i dderbyn gofal a chefnogaeth ddiogel, briodol a chydag urddas. Bydd y system newydd hon o reoleiddio'n gadarnach ac yn galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, i gynnal trosolwg o'r gwasanaeth cyfan y mae sefydliad yn ei ddarparu.

Datblygwyd rheoliadau newydd, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") y llynedd a daethant i rym ym mis Ebrill 2018. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod set gyson o ofynion ar wasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel.

Yn dilyn rhoi'r rheoliadau ar waith, nodwyd sawl mater sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio Rheoliadau 2017. Mae'r rhain yn ymwneud â nifer o wahanol feysydd; fodd bynnag roedd yr angen i egluro'r mathau o weithgaredd sy'n berthnasol i'w rheoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal, yn ystyriaeth allweddol. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys eithrio rhai mathau penodol o ofal seibiant a ddarperir i blant a gwneud y geiriad ynghylch y gofal a ddarperir i blant anabl yn fwy eglur.

Nodir y newidiadau hyn yn y Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 drafft, sy'n destun yr ymgynghoriad hwn.

Er bod llawer o'r diwygiadau arfaethedig hyn yn weddol fân o ran natur, rwyf eisiau sicrhau bod pobl wedi cael cyfle i ystyried ein cynigion yn fanwl a chyflwyno adborth er mwyn sicrhau y bydd y diwygiadau arfaethedig yn gweithio'n ymarferol. Yn benodol, rwyf eisiau sicrhau ein bod yn cael cydbwysedd cywir rhwng caniatáu hyblygrwydd i drefniadau fel gofal seibiant weithredu heb y baich cyflawn o gael ei ddiffinio fel gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio, gan hefyd sicrhau nad yw diogelwch pobl yn cael ei beryglu.

Hoffwn ddiolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon ac ystyried y rheoliadau drafft, ac rwy'n estyn gwahoddiad i chi ymateb fel bo'n briodol. Edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

Huw Irranca-Davies AC

Y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

Dros y pedair blynedd diwethaf gwelwyd creu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gyda phasio dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth. Y nod cyffredinol fu diwygio ac atgyfnerthu cyfraith gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a'u gofalgwyr.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹ ('Deddf 2014'), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn sefydlu fframwaith newydd sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith yng nghyswllt y rhan fwyaf o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod prosesau mabwysiadu'n cael eu llywodraethu'n bennaf gan Ddeddf Mabwysiadu 1976² a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002³ ('Deddf 2002').

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁴ ('Deddf 2016'), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016, yn gosod y fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a hefyd yn diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cymryd lle systemau, rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol perthnasol a sefydlwyd yn flaenorol dan Ddeddf Safonau Gofal 2000⁵.

Mae Deddf 2016 yn cael ei gweithredu mewn tri cham sy'n gorgyffwrdd:

- **Cam 1 (2016/17)** – Roedd y cam hwn yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.
- **Cam 2 (2017/18)** – Yn ystod y cam hwn cafodd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio eu sefydlu a'u rhoi ar waith gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Ebrill 2018. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwyllir gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol o ran cartrefi gofal (gan gynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Mae dolenni cyswllt yn arwain at bob un o reoliadau a chanllawiau statudol cam 1 a cham 2 y gellir cael mynediad atynt drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu GCC: <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhaqc-rheoliadau>

- **Cam 3 (2018/19)** yw'r cam cyfredol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwyllir gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol o ran gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eiriolaeth. Bwriedir i'r rhain ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

² <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/36>

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/38/contents>

⁴ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_en.pdf

⁵ http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

Mae'r Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 drafft, sef testun yr ymgynghoriad hwn, hefyd yn cael eu dwyn ymlaen fel rhan o Gam 3 y broses weithredu.

Ochr yn ochr â'r gweithredu, mae'r diwygio hwn ar gyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei gefnogi gan gynlluniau polisi ehangach, gan gynnwys rhaglen Llywodraeth Cymru - 'Gwella Canlyniadau i Blant'. Caiff y rhaglen hon ei goruchwyllo gan Grŵp Cyngori Gweinidogol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o lywodraeth leol, y byd academiaidd a'r trydydd sector ac mae'n cynnwys y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'n canolbwyntio ar dair thema: lleihau'r nifer o blant sy'n cael eu derbyn i ofal; gwella canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal (gan gynnwys lleoliadau sefydlog a chynllunio parhad); a chefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i ddod yn oedolion annibynnol.

2. Yr ymgynghoriad hwn

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn o 28 Medi 2018 ac mae'n dod i ben ganol nos ar 21 Rhagfyr 2018.

Gofynnir am eich barn ar y Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") sy'n diwygio'r Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Yn fyr, mae Rheoliadau 2019 yn gwneud y canlynol:

- Diwygio'r geiriad yn ymwneud â phlant anabl yng nghyswllt eithriadau o ran cartrefi gofal.
- Darparu eithriad rhag cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal ar gyfer trefniadau seibiant ar raddfa fechan i blentyn neu grŵp o frodyr/chwirydd a ddarperir yng nghartref y gofalwr ei hun, gyda chyfyngiad o hyd at 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.
- Eithrio'r ddarpariaeth gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig o gwmpas y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref.
- Diwygio'r gofynion i reolwyr gwasanaethau cymorth cartref i ganiatáu i'r rheolwyr hynny ar asiantaethau nyrsys a gofrestrwyd gynt dan y Ddeddf Safonau Gofal i beidio gorfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru tan 1 Ebrill 2020.
- Cael gwared â'r gofyniad i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio wneud hysbysiadau a chadw cofnodion mewn perthynas â salwch.
- Diwygio'r geiriad ynghylch gofynion cadw cofnodion a hysbysu yng nghyswllt achosion o friwiau pwyso.
- Gwneud diwygiad bychan i'r diffiniad o wasanaethau llety 'Categori B' (sy'n cynnwys estyniad i eiddo presennol).
- Gwneud nifer o fân ddiwygiadau i gywiro materion teipograffyddol a chynllun tudalennau.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn sail i'n hystyriaeth o'r Rheoliadau terfynol. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion dros y gaeaf ac ystyried a allai unrhyw newidiadau fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r Rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y gwanwyn 2019.

Bwriedir i'r Rheoliadau terfynol ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

3. Yr angen am newidiadau rheoleiddiol

Mae diwygio ein system reoleiddio, a yrrir yn bennaf drwy Ddeddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

- ymateb i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014
- sicrhau bod dinasyddion wrth galon y gofal a'r cymorth
- datblygu dull cydlynol a chyson o wneud pethau yng Nghymru
- mynd i'r afael â methiannau gan ddarparwyr
- ymateb i fodolau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n codi am ansawdd y gwasanaethau gofal a chymorth.

Y fframwaith rheoleiddio newydd dan Ddeddf 2016

Dan adran 27 Deddf 2016, caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfrwng rheoliadau, osod gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth yng nghyswllt gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio. Dan adran 28, gallant osod gofynion ar unigolyn cyfrifol yng nghyswllt gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio.

Mae'r 'gwasanaethau rheoleiddiedig' hyn yn cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel fel y'u diffiniwyd yn Rheoliadau 2017.

Dan Adran 29 Deddf 2016 rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch sut y gall darparwyr gwasanaeth rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan reoliadau dan adran 27, gan gynnwys sut y gall y darparwyr gwrdd ag unrhyw safonau ar gyfer darparu gwasanaeth rheoleiddiedig a bennwyd gan reoliadau o'r fath; ac ynghylch sut y gall unigolion cyfrifol dros wasanaeth sy'n cael ei reoleiddio gydymffurfio â'r gofynion dan adran 28.

Roedd Rheoliadau 2017 a'r canllawiau statudol a luniwyd dan Ddeddf 2016 yn disodli gofynion a roddwyd ar waith yn flaenorol dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'i Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

Agwedd tuag at reoleiddio

Yr agwedd a gymerwyd tuag at reoleiddio wrth ddatblygu Rheoliadau 2017 oedd sicrhau bod y gofynion yng nghyswllt gwasanaethau rheoleiddiedig fel a ganlyn:

- **Cymesur:** dylai'r gofynion ymwneud â materion o fewn rheolaeth y darparwr gwasanaeth mabwysiadu sy'n cael ei reoleiddio, neu eu hunigolyn cyfrifol, neu ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol neu eu rheolwr gwasanaeth; ac a fydd yn arwain at welliant o ran ansawdd ac ymarfer.

- **Gweddol gyson** ar draws yr holl wasanaethau rheoleiddiedig dan Ddeddf 2016: nid yw hyn yn golygu 'un maint i bawb', ond y dylai'r un safonau uchel gael eu cymhwyso ar draws yr holl wasanaethau. Felly, mae'r gofynion o angenrheidrwydd yn uchel, ac mae manylion ynghylch sut y gellir cydymffurfio â'r gofynion wedi'u nodi yn y canllawiau statudol. Cyn belled ag y bo'n bosibl, bydd gofynion cyfatebol hefyd yn cael eu gosod ar wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ac fe'u hategir gan god ymarfer.
- **Yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl:** y bwriad yw i'r gofynion alluogi gwasanaethau i gefnogi pobl yn y ffordd orau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, yn unol ag egwyddorion Deddf 2014.

Mae'r egwyddorion hyn wedi cael eu cynnal wrth ddatblygu Rheoliadau drafft 2019.

Yr angen am Reoliadau 2019

Nodir isod y rhesymeg dros y diwygiadau arfaethedig yn Rheoliadau 2019:

Eithriad o gwmpas gwasanaeth cartref gofal

Geiriad yn ymwneud â phlant anabl (Rheoliad 4)

Mae'r diwygiad yn darparu eglurder ynghylch gweithgarwch sy'n berthnasol i'w reoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal. Bwriad y geiriad gwreiddiol oedd atgynhyrchu'r eithriad dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 sy'n cydnabod bod plant anabl yn agored i niwed ac yn rhoi mwy o amddiffyniad rheoleiddiol iddynt. Fodd bynnag, canlyniad anfwriadol y geiriad a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau 2017 oedd tynnu i mewn i gwmpas rheoleiddio ystod eang o drefniadau'n ymwneud â darparu llety preswyl i blant os oedd yn cynnwys cyfranogaeth dim ond un plentyn anabl yn unig. Mae Rheoliadau drafft 2019 yn ymdrin â hyn drwy ddiwygio'r geiriau i 'gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant anabl' yn hytrach na 'darperir llety i blentyn anabl'. Rydym yn ystyried hyn yn ddull gweithredu sy'n fwy cymesur ac a fydd yn darparu mwy o eglurder a sicrwydd i ddarparwyr y gwasanaethau hynny.

Gofal seibiant ar raddfa fach i blant (Rheoliad 4 (c))

Bydd darparu eithriad ar gyfer trefniadau seibiant ar raddfa fach i blant neu grŵp o frodyr/chwirydd a ddarperir yng nghartref y gofalwr ei hun yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i helpu hwyluso gwneud trefniadau seibiant byr gan rieni plant anabl e.e. gan y rhai sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol. Heb yr eithriad hwn byddai'n ofynnol i ofalwyr sy'n darparu gofal a llety i blant am gyfnod byr yn eu cartref eu hunain gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal. Bydd cyfyngiad o 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, a darpariaeth o fewn cartref y gofalwr ei hun yn helpu i sicrhau bod y gweithgaredd hwn yn gyfyngedig i drefniadau ar raddfa ddomestig. Mae hefyd yn gyson â'r eithriad ar gyfer gwasanaethau oedolion yn rheoliad 2(1)(b) rheoliadau 2017. Mae eithriad tebyg yn rheoliadau 2017 ar gyfer gwasanaethau oedolion ond credwn fod y mesurau ychwanegol a osodir yma i gyfyngu ar nifer y plant ac i gyfyngu i ddarpariaeth llety yng nghartref y gofalwr ei hun yn wahaniaethau priodol i'w gwneud ar gyfer plant.

Rydym yn ystyried fod y diwygiad arfaethedig yn darparu cydbwysedd cywir rhwng hwyluso trefniadau seibiant, er enghraifft, gan y rhai sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, gan hefyd gydnabod bod plant yn fwy agored i niwed drwy osod cyfyngiadau sy'n ychwanegol at y rhai sydd yn eu lle ar gyfer oedolion.

Eithriad o gwmpas gwasanaeth cymorth cartref

Darpariaeth gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig neu Fwrdd Iechyd Lleol (Rheoliad 5)

Nid yw asiantaethau nyrsys wedi'u cynnwys fel math o wasanaeth sy'n cael ei reoleiddio dan Atodlen 1 Deddf 2016. Fodd bynnag, wrth weithredu Deddf 2016 ac ail-gofrestru gwasanaethau, daeth yn amlwg fod natur y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan rai asiantaethau nyrsys yn galw am fwy o eglurder o ran ble i dynnu llinell ar gyfer gweithgarwch sy'n dod o fewn cwmpas rheoleiddio. Mae'r diwygiad yn eithrio darpariaeth gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig o gwmpas y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref. Mae'r diwygiad hefyd yn eithrio gwasanaethau nyrsio ardal o gwmpas rheoleiddio gan eu bod eisoes yn cael eu rheoleiddio dan ddeddfwriaeth y GIG. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar natur y gwasanaeth a ddarperir gan asiantaethau nyrsys neu Fyrddau Iechyd Lleol, efallai y byddant yn parhau i gael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cymorth cartref dan Ddeddf 2016. Yn wir, mae rhai asiantaethau nyrsys eisoes yn dal cofrestriad ar wahân fel asiantaethau gofal cartref dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Ymestyn dyddiad cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer rheolwyr asiantaethau nyrsys (Rheoliad 8)

Nid oedd y ofynnol i reolwyr asiantaethau nyrsys gofrestru gyda GCC dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fel y nodwyd uchod, fodd bynnag, bydd rhai asiantaethau nyrsys yn cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaethau cymorth cartref dan Ddeddf 2016. Mae diwygio'r gofynion i reolwyr gwasanaethau cymorth cartref i ganiatáu amser ychwanegol i bersonau a gofrestrwyd yn flaenorol fel rheolwyr asiantaethau nyrsys dan y Ddeddf Safonau Gofal ond nad oeddynt wedi'u cofrestru'n flaenorol fel rheolwyr asiantaethau gofal cartref wedi'i fwriadu i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd a chyfnod trosiannol. Bydd gan y grŵp hwn hyd at 1 Ebrill 2020 i gofrestru gyda GCC.

Cael gwared â gofynion hysbysu a chadw cofnodion yng nghyswllt achosion o salwch (Rheoliadau 11 a 12)

Mae cael gwared â'r gofyniad i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio wneud hysbysiadau a chadw cofnodion mewn perthynas â salwch yn cydnabod y bydd pobl yn datblygu salwch difrifol fel canser a dementia ond ddim o ganlyniad i ansawdd y gofal a ddarparwyd gan y gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio.

Diwygio geiriad mewn perthynas â briwiau pwyso (Rheoliad 12)

Bydd diwygio'r geiriad ynghylch gofynion cadw cofnodion a hysbysu yng nghyswllt achosion o friwiau pwyso yn sicrhau bod y Rheoliadau'n gyson â'r geiriad diwygiedig yng Nghanllawiau Cymru ar Hyfywedd Meinweoedd i Nyrsys.

Categori B

Bydd diwygio geiriad y diffiniad o wasanaethau llety 'Categori B' (sy'n ymwneud ag estyniad newydd i adeilad presennol), yn egluro sut mae'r gofynion ychwanegol ar gyfer llety newydd yn berthnasol i ddarparwyr sy'n ymestyn eu heiddo.